
# Ydych chi'n cadw moch?

**Gallwch helpu i ddiogelu eich moch rhag perygl clefydau fel Clwy Affricanaidd y Moch. Er mwyn gwneud hyn mae'n rhaid i chi wneud y canlynol:**

Monitro iechyd eich moch ac ymgynghori â'ch milfeddyg preifat ynghylch unrhyw arwyddion o glefyd neu newidiadau mewn ymddygiad.






Cyfyngu ar symudiadau anifeiliaid, pobl, cyfarpar a chyfarpar ar y safle ac oddi yno. Cadwch gofnod o'r holl ymwelwyr. Rhowch foch sy'n eich cyrraedd dan gwarantîn a'u cadw oddi wrth y moch eraill am 20 diwrnod.

Ceisiwch osgoi rhannu cyfarpar rhwng safleoedd. Mae'n rhaid i unrhyw gyfarpar sy'n cael ei gludo i'r safle neu oddi yno gael ei lanhau a'i ddiheintio'n drylwyr.





Cofiwch sicrhau eich bod yn darparu cyfleusterau dipio traed a brwshys ar gyfer unrhyw un sy'n dod ar y fferm. Dylech lanhau unrhyw faw oddi ar esgidiau/bŵts yn gyntaf, neu ni fydd y diheintydd yn gweithio. Defnyddiwch ddiheintydd a gymeradwyir gan Orchmynion Cyffredinol y Llywodraeth, gan ddilyn y gyfradd wanhau a argymhellir.

Dylai'r bwyd anifeiliaid fod o safon uchel ac o ffynonellau cymeradwy. Mae hi'n anghyfreithlon i roi gwastraff o'r gegin neu wastraff arlwyo i foch.





Gall baeddod gwyllt ledaenu clefydau i foch eraill ac mae'n rhaid eu cadw i ffwrdd. Sicrhewch fod gennych ffens berimedr ddiogel, a ffens ddwbl ar safle yn yr awyr agored er mwyn atal cyswllt uniongyrchol â bywyd gwyllt.

Cewch wybod mwy drwy fynd i https://llyw.cymru/african-swine-fever-guide

npa
BPA British Pig Association
Animal & Plant Health Agency
Llywodraeth Cymru Welsh Government
Department for Environment Food & Rural Affairs
Scottish Government gov.scot